

# Dod yn Gyfaill i Ddŵr Croyw

Gobeithio eich bod wedi mwynhau cymryd rhan yn yr arolwg Dwr Glân i Fywyd Gwylt. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich amser a'ch cefnogaeth i'r prosiect. **Nid oes angen i chi lenwi unrhyw wybodaeth isod i gymryd rhan mewn Dŵr Glân i Fywyd Gwylt.** Fodd bynnag, byddem wrth ein bodd os dymunwch gefnogi ein gwaith ehangach i warchod bywyd gwylt mewn dŵr croyw, a sicrhau bod pobl yn cael cyfle i fwynhau'r lleoedd gwych yma. Rydym wedi cyflawni llawer hyd yn hyn a bydd eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r hyn y gallwn ei gyflawni yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rwy'n dymuno talu:  Misol (awgrymir rhodd o £5)  Blynyddol  Rhodd unwaith ac am byth

Teitl:  Enw:

Cyfeiriad:  Cod Post:

Rhif ffôn:  E-bost:

Cyfarwyddyd i'ch Banc neu Gymdeithas Adeilad i dalu Debyd Uniongyrchol i Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust)

I Reolwr (enw'r Banc/Cymdeithas Adeiladu)

Cyfeiriad

Cod Post

Enw daliwr y cyfrif

Cod Sortio'r Gangen  Rhif y cyfrif yn y Banc/Cymdeithas Adeiladu

Taler Freshwater Habitats Trust Ddebyd Uniongyrchol o'r cyfrif a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngol i'r mesurau diogelwch a warentir gan y gwarant Debyd Uniongyrchol.

Llofnodwyd  Dyddiad

Efallai na fydd Banciau a Chymdeithasau Adeiladu yn derbyn cyfarwyddiadau Debyd Uniongyrchol o rai mathau o gyfrifon.  
Rhif Dechreuwr: 249358 At ddibenion swyddfa yn unig, cyfeirnod DU: \_\_\_\_\_

Gwarant Debyd Uniongyrchol: Cynigrir y Warrant hon gan yr holl Banciau a Chymdeithasau Adeiladu sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Debyd Uniongyrchol. Mae eich Banc neu eich Cymdeithas Adeiladu chi yn monitro ac yn gwarchod effeithiolrwydd a diogelwch y Cynllun. Os bydd y symiau i'w talu neu y dyddiadau talu'n newid, bydd Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust) yn eich hysbysu 14 diwrnod gwaith cyn i'ch cyfrif gael ei ddebydu neu fel y cytunir fel arall. Os gwneir camgymeriad gan Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust) neu eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu, gwarantir ad-daliad llawn a chyflwm gan eich cangen o'r swm a dalwyd. Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol unrhyw bryd drwy ysgrifennu at eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu. Anfonwch gopi o'ch llythyr atom ni hefyd.

**Rhodd Cymorth - Os ydych yn talu treth yn y Deyrnas Unedig, gallwn adennill y dreth ar roddion gan gynyddu'r swm o 25%.**

Rwy'n drethdalwr yn y Deyrnas Unedig a dymunaf i'r Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust) adennill treth ar fy rhodd.


Trwy dicio'r blwch rhodd cymorth a llofnodi'r ffurflen hon rydych yn cadarnhau eich bod yn talu swm o dreth incwm neu enillion cyfalaf y Deyrnas Unedig sydd o leiaf yn gyfartal â'r dreth. Bydd Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust) yn hawlio y dylent drin yr holl roddion o arian a wnes yn ystod y 4 blynedd diwethaf a phob rhodd o arian gennyf yn y dyfodol o ddyddiad y datganiad hwn fel rhoddion Rhodd Cymorth. Rhaid i chi roi gwybod i'r elusen os yw eich statws treth yn newid neu os nad ydych bellach yn drethdalwr yn y Deyrnas Unedig.

Llofnodwyd  Dyddiad

Dychwelwch i: Freshwater Habitats Trust, First Floor, Bury Knowle House, North Place, Headington, Oxford, OX3 9HY

# Deall canlyniadau eich Dŵr Glân i Fywyd Gwylt

Defnyddiwch y diagram a'r wybodaeth ar y dudalen hon i'ch helpu i ddehongli canlyniadau eich pecynnau. Beth bynnag wnaethoch ei ddarganfod, dywedwch wrthym amdano. Mae'ch gwybodaeth yn bwysig iawn i helpu i greu darlun cenedlaethol o lefelau llygredd maetholion mewn dŵr croyw. Gwelwch: [freshwaterhabitats.org.uk/projects/people-ponds-water](http://freshwaterhabitats.org.uk/projects/people-ponds-water)



## Dim tystiolaeth o lygredd maetholion.

😊 **Llongyfarchiadau! Mae'n edrych yn debyg eich bod wedi dod o hyd i gynefin dŵr glân gwych.**

Ni fydd dŵr na chafodd ei lygru gan faetholion yn dangos ychydig neu ddim newid lliw yn y naill brawf neu'r llall. Mae hyn yn newyddion gwych gan fod angen i anifeiliaid a phlanhigion, yn enwedig rhywogaethau prin a rhai sydd mewn perygl, fyw mewn dŵr sydd yn naturiol yn isel iawn mewn maetholion.

Rydym wir eisiau gwybod am y safleoedd hyn gan y gallent fod ymhlith yr ychydig safleoedd sydd ar ôl, y gorau o'r dŵr croyw sydd heb eu difrodi yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr wybodaeth hon yn werthfawr i fonitro cyflwr y safle a gwneud penderfyniadau am reoli safleoedd. Gallai'r cam nesaf fod i wneud arolwg biololeg i ddarganfod pa rywogaethau sy'n bresennol. Mae safleoedd dŵr glân yn aml yn cynnal cymunedau bywyd gwylt cyfoethog a diddorol.

## Tystiolaeth o rywffaint o lygredd maetholion.

😞 **Yn anffodus, daethoch o hyd i safle lle mae'r dŵr wedi'i ei lygru gan faetholion ar lefelau a fydd yn niweidiol i fywyd gwylt.**

Bydd dyfroedd llygredig yn dal i fod â rhywfaint o fywyd gwylt - ond ni fydd ganddynt gyfoeth gwych o fywyd gwylt, na rhywogaethau prin sy'n byw mewn dŵr glân. Ar hyd yn oed y lefelau cymedrol hyn o lygredd maetholion, gellir colli mwy na hanner yr anifeiliaid a'r planhigion a ddylai fod yn bresennol. Os yw hwn yn bwl yn eich gardd, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei lenwi â dŵr glaw, yn hytrach na d'r o'r tap (gweler y dudalen nesaf).

Os yw hwn yn bwl yn eich cymdogaeth, ceisiwch ganfod a oes unrhyw un yn gweithio gyda ffermywyr lleol neu'r cynghorau lleol i wneud yr amgylchedd cystal ag y gall fod. Mae'n anodd iawn cael gwared â maetholion o gynefinoedd llygredig, ond gall gwybod y cyfyngiadau helpu i arwain y ffordd y caiff safleoedd eu rheoli.

## Lefelau uchel neu uchel iawn o lygredd maetholion.

😞 **O diar, mae gan y safle hon lefelau uchel o lygredd maetholion. Mae hyd yn oed rhywogaethau gwydn weithiau'n ei chael yn anodd gwneud cartref mewn safle fel hon.**

Peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to! Efallai fod safleoedd glân, heb eu llygru yn eich cymdogaeth yn aros i gael eu canfod. Cymerwch becyn arall a chwiliwch yn rhywle arall. Beth am roi cynnig ar gynefin gwahanol fel pwll neu nant? Edrychwch ar y wefan i ddarganfod a oes rhywun wedi cofnodi safle dŵr glân yn agos atoch - mae'n werth ymweliad os ydych am weld cynefinoedd dŵr croyw sy'n ffynnu â bywyd gwylt.

**AC YN OLAF:** Gall rhai mannau sydd â lefelau maetholion isel iawn gael eu heffeithio gan broblemau eraill nad yw'r pecynnau yn eu canfod.

Mae mwy o wybodaeth yn ein canllaw technegol ar y defnydd a dibynadwyedd y pecynnau - ar gael ar ein gwefan.



**Esbonio eich canfyddiadau mewn gwahanol fathau o gynefinoedd**

**Afonydd, nentydd a ffosydd.** Mae dyfroedd rhedegog fel y rhain yn casglu dŵr o ardaloedd enfawr o dir. Ar y tir isel mae cymaint o faetholion yn draenio o dir fferm ac ardaloedd trefol, nes ei bod yn anarferol iawn i ddod o hyd i unrhyw afonydd neu hyd yn oed nentydd mawr nad ydynt wedi cael eu llygru gan faetholion. Mae'r safleoedd glanach, gyda'r lleiaf o faetholion, yn tueddu i fod yn nentydd bach neu ffosydd sy'n dechrau mewn coetir neu laswelltir sydd heb ei wrteithio, nid ydynt eto wedi cael eu llygru.

**Pyllau dŵr cefn gwlad.** Mae gan rai pyllau ddŵr glân iawn a bywyd gwylt ffyniannus. Mae'n bosib mai ychydig o lygryddion sydd mewn pwll dŵr ar ben bryn neu mewn coetir neu rostir, sy'n draenio tir nad yw'n cael ei ddatblygu na'i ffermio. Yn yr un modd, efallai mai ychydig o faetholion sydd mewn pyllau newydd neu byllau sydd wedi'u carthu yn ddiweddar, gan nad yw silt llygredig wedi cael amser i gronni. Ar y llaw arall, bydd gan lawer o byllau mewn ardaloedd sy'n cael eu ffermio'n ddwys, neu gyda llawer o hwyaid, neu gyda nant (neu ffos) yn rhedeg i mewn iddynt, lefelau uchel o lygryddion maethol fel arfer.

**Pyllau dŵr gardd.** Pan fydd pyllau dŵr gardd wedi eu dylunio'n dda a'u bwydo gan ddŵr glaw, gallant fod yn gynefinoedd gwych i fywyd gwylt. Gall y rhai sy'n llawn dŵr tap fod yn uchel mewn maetholion a gallant ddangos arwyddion o lygredd. Gall pyllau gyda physgod hefyd gael maetholion uchel o'r bwyd pysgod a ychwanegwyd a baw pysgod.

**Casgenni dŵr.** Fel arfer yn isel mewn maetholion. Fel rheol caiff casgenni dŵr eu bwydo gan d'r glaw sy'n draenio o doeau. Mae dŵr glaw yn naturiol yn isel mewn maetholion, felly dylai fod gan gasgenni dŵr lefelau isel iawn o nitrad a ffosffad. Os nad, rhaid bod rhywbeth arall yn ychwanegu maetholion, naill ai o'r to neu rywle arall.



# Dŵr Glân i Fywyd Gwylt

Defnyddiwch becynnau prawf syml i ddarganfod pa mor dda yw eich cynefinoedd lleol i fywyd gwylt mewn dŵr croyw!




## A yw'r pyllau, nentydd ac afonydd yn eich cymdogaeth yn ddigon da i fywyd gwylt?

Ymunwch ag arolwg cymunedol a darganfyddwch

[freshwaterhabitats.org.uk/projects/clean-water](http://freshwaterhabitats.org.uk/projects/clean-water)

# Dŵr Glân i Fywyd Gwylt



**M**ae bywyd gwylt mewn dŵr croyw angen dŵr glân sydd heb ei lygru, er mwyn goroesi. Yn anffodus, dim ond ychydig o lygredd sydd ei angen i niweidio cynefinoedd fel nentydd a phyllau, ac i niweidio'r planhigion a'r anifeiliaid mwyaf sensitif sy'n cartrefu yma.

Gyda'ch help chi, mae'r arolwg Dŵr Glân i Fywyd Gwylt yn ceisio dod o hyd i'r gemau cudd - y lleoedd sy'n rhydd o lygredd a lle mae bywyd gwylt yn dal i ffynnu. Nod yr arolwg hefyd yw darganfod am y tro cyntaf, i ba raddau mae bywyd gwylt dŵr croyw yn wynebu llygredd maetholion heddiw.

## Cofrestrwch a chymerwch ran

Gall unrhyw un a phawb gymryd rhan yn yr arolwg Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt - gweithwyr proffesiynol neu ddechreuwy'r. Mae'n hawdd. Gyda dau brawf cyflym gallwch gofnodi faint o lygredd maetholion sy'n eich pyllau, nentydd, afonydd, ffosydd a chamlesi lleol - ac efallai y darganfyddwch safleoedd dŵr glân newydd.

Gyda'n gilydd, gallwn ddod o hyd i'r safleoedd gorau a diogelu'r rhain, a chreu darlun o gyflwr ansawdd dŵr a'i effaith ar fywyd gwylt ledled Cymru a Lloegr.



I gofrestru a chasglu eich pecynnau arolwg yn rhad ac am ddim a chofnodi eich canlyniadau, cysylltwch â: Laura Quinlan, Gweinyddwr y Prosiect, E: [peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk](mailto:peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk)  
[freshwaterhabitats.org.uk/projects/people-ponds-water](http://freshwaterhabitats.org.uk/projects/people-ponds-water)

## Beth sydd mor ddrwg am faetholion?

Mae'r rhan fwyaf o blanhigion ac anifeiliaid dŵr croyw wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd mewn byd lle'r oedd lefel naturiol o faetholion mewn pyllau, llynnoedd, nentydd ac afonydd yn isel iawn. Pan fyddwn yn ychwanegu mwy o faetholion, rydym yn achosi newidiadau dwys i'r amgylchedd dŵr croyw ac ni all bywyd gwylt ymdopi â hyn.

Mae gormod o faetholion yn achosi algâu, ffyngau, bacteria a rhai planhigion dŵr i dyfu yn gyflymach nag y byddent yn naturiol. Mae llawer o'n bywyd gwylt, yn enwedig rhywogaethau eiddil a phrin, yn cael eu mygu neu eu gorchuddio gan ychydig o rywogaethau goddefgar sy'n tyfu'n gyflym.

Mae'n bosibl y bydd pyllau dŵr yn cael eu gorchuddio gan linad y dŵr ar yr wyneb ac yn y dŵr tywyll islaw, sydd heb ocsigen, bydd anifeiliaid yn marw. Mewn afonydd a nentydd mae gordyfiant o algâu yn achosi lefelau o ocsigen toddedig i amrywio ac mewn achosion eithafol, bydd hyd yn oed pysgod yn diflannu.

**Mae gormod o faetholion yn newyddion drwg i fywyd gwylt.**

**Mae Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt yn arolwg ansawdd dŵr cenedlaethol sy'n ceisio darganfod lleoedd sy'n rhydd o lygredd, lle mae bywyd gwylt yn dal i ffynnu.**



**Y**chydig i'r gogledd o ddinas brysur Rhydychen, mae pyllau dŵr glân fel hyn yn llawn bywyd gwylt dŵr croyw. Mae'r pyllau dŵr ar Otmoor yn gartref i nifer fawr o blanhigion ac anifeiliaid cyffredin a phrin, gan gynnwys planhigion sy'n sensitif i lygredd fel pluddail y dŵr. Yn anffodus nid yw hyn yn wir ymhobman. Mae llygredd maetholion yn gyffredin, gan adael llawer o leoedd yn llawer tlotach ar gyfer bywyd gwylt. Mae planhigion sensitif fel pluddail y dŵr wedi eu bwrw allan o drs hanner eu hystad blaenarol yn y 100 mlynedd diwethaf ac mae eu niferoedd yn dal i ostwng yn gyflym.

## Pam mae'r arolwg mor bwysig?


Er bod asiantaethau'r llywodraeth yn monitro llygredd yn ein hafonydd, nentydd a llynnoedd mawr, **ni wyddom unrhyw beth am lygredd maetholion mewn 99% o'n pyllau dŵr, nentydd bach, ffosydd a chynefinoedd dŵr croyw eraill**, lle mae cymaint o'n bywyd gwylt dŵr croyw gwych yn byw.

## Beth sy'n newydd?

Tan yn ddiweddar, yr unig ffordd i ddarganfod lefelau maetholion mewn dŵr oedd gwneud profion labordy drud. Ond yn y blynyddoedd diwethaf mae pecynnau dibynadwy syml ar gael.

Gyda'r pecynnau hyn, gallwn i gyd **'weld'** llygredd maetholion: **yn gyflym, yn hawdd ac yn rhad am y tro cyntaf.**

Mae hyn yn rhoi cyfle newydd gwych i ni ddarganfod mwy am ansawdd dŵr ym mhob math o gynefin dŵr croyw ledled Cymru a Lloegr.



## Gwneud yr anweledig yn weladwy

Ni allwch weld maetholion yn y dŵr: yn aml, gall dŵr sy'n edrych yn glir fel crisial gael ei lygru â nitrad a ffosffad. Mae pecynnau prawf yn ffordd gyflym a hawdd o ddarganfod os yw'n llygredig ai peidio.

# Sut i wneud yr arolwg

**M**ae ymuno â'r arolwg yn syml ac yn hwyl. Defnyddiwch y pecyn i ddarganfod mwy am eich hoff lefydd yn lleol, neu ewch ymhellach i ffwrdd, efallai fel rhan o daith gerdded neu hyd yn oed ar wyliau!

Gallwch gasglu dŵr o un neu fwy o safleoedd - gan gynnwys afonydd, nentydd, pyllau, ffosydd a chamlesi. Gallwch hyd yn oed wirio'r dŵr ym mhwl eich gardd, pwl ysgol, gorsaf ddŵr neu dap y gegin. Ewch i'ch safle unwaith, neu ewch yn ôl sawl gwaith yn ystod y flwyddyn a chadw cofnod o unrhyw newidiadau.

Rydym eisiau annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan. Efallai eich bod yn dirfeddiannwr, yn rhan o grŵp cymunedol, sefydliad bywyd gwylt, busnes, ysgol neu goleg. Mae croeso i grwpiau ac unigolion brwd gymryd rhan.

## Crynodeb o'r camau dan sylw

- Nodi'r dŵr rydych eisiau ei brofi
- Cymerwch sampl o ddŵr (gweler y Pecyn Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch).
- Mesurwch faint o'r maetholion nitrad a ffosffad sy'n y dŵr, gan ddefnyddio'r pecynnau.
- Llenwch daflen arolwg ar gyfer pob safle.
- Dywedwch wrthym beth rydych wedi ei ddarganfod - cofnodwch y data ar-lein fel ei fod yn cyfrannu at y gronfa ddata yn yr arolwg cenedlaethol neu e-bostiwch eich canlyniadau atom
- Darganfyddwch beth mae eich canlyniadau yn ei olygu (dros y dudalen).



## Defnyddio'ch pecynnau dŵr glân

Defnyddiwch un tiwb ffosffad ac un tiwb nitrad ar gyfer pob sampl o ddŵr (wedi'i farcio N am nitrad neu P ar gyfer ffosffad ar y tab ar waelod y tiwb)

1 Tynnwch a thafllwch y pin melyn sy'n gadael twll aer bach



2 Gyda'r twll aer yn pwyntio at i fyny, defnyddiwch eich bys a'ch bawd i wasgu'r aer allan



3 Gan ddal i wasgu'r aer, trowch y tiwb ben uchaf isaf a rhowch o islaw lefel y dŵr

Gan ddal i wasgu, trowch y tiwb ben uchaf isaf a rhowch y tiwb islaw lefel y dŵr gan wasgu'r aer allan

4 Rhyddhewch y gwasgedd yn ysgafn a sugno digon o ddŵr i lenwi'r tiwb ychydig dros hanner ffordd



5 Os oes angen, trowch y tiwb yn unionsyth eto, gwasgu ychydig mwy o aer allan er mwyn sugno mwy o ddŵr i ychydig dros hanner ffordd



6 Ysgydwch y tiwb yn ofalus i gymysgu'r dŵr a'r powdwr y tu mewn

7 Gwnewch gofnod o'r amser ac arhoswch am yr adwaith lliw

**Nitrad: 3 munud**  
**Ffosffad: 5 munud**

8 Cymharwch y tiwb gyda'r siart lliw ar unwaith pan fo'r amser ar ben, gan y bydd y lliw yn parhau i ddatblygu.

9 Cofnodwch y canlyniadau isod a'u cofnodi ar-lein neu drwy e-bost

Mae Dŵr Glân i Fywyd Gwylt yn un o dri phrosiect yn y Prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr gan Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust), a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

# Cofnodi canlyniadau Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt

**Enw/Enwau'r Syrffewr/Syrfewyr** - eich enw chi ac unrhyw un sydd gyda chi yn casglu'r sampl, e.e. Anne Smith, John Smith

**Grŵp Cofnodi** - os ydych yn casglu canlyniadau ar ran grŵp, rhowch yr enw e.e. Wild About Cheshire



**E-bost** - Rhowch eich cyfeiriad e-bost i dderbyn y canlyniadau ar-lein ar gyfer eich arolwg.

**Cyfeirnod grid** e.e. SP 3212 6543 neu y cod post agosaf

**Dyddiad**

dd/mm/yy

Os nad ydych yn gwybod y naill neu'r llall o'r rhain, nodwch leoliad y corff dŵr (ee enw'r ffordd agosaf), fel y gallwch ddod o hyd i'r safle yn nes ymlaen ar fap. Gweler y wefan am fwy o help.

**Pa fath o gorff dŵr wnaethoch chi ei samlo?** (ticiwch un)



Pwll dŵr gardd  Pwll dŵr arall  Llyn  Ffos  Afon  Nant

Arall (nodwch)

**Enw'r corff dŵr** e.e. Pwll dŵr y Glôwr, neu'r Pwll dŵr yng Nghoed y Gell (os na wyddoch enw'r pwll)

## Cofnodi lefel y maetholion

- Ar ôl i'r amser datblygu orffen, cymharwch eich tiwb N neu P gyda'r siart cyfatebol (dde).
- Mae'r siart yn seiliedig ar amrediaid e.e. mae fy lliw yn disgyn rhwng 0.5 a 1. Ticiwch un.
- Os nad yw'r tiwb wedi newid lliw o gwbl - ticiwch y categori amrediad isaf <0.2 N, neu <0.02 P.
- Os yw eich tiwb yn cyfateb un lliw yn union, ticiwch yr amrediad uwch e.e. os cofnodwch 0.5, ticiwch yr amrediad 0.5-1.



Cyflwynwch eich canlyniadau ar-lein gan ddefnyddio WaterWet PPW neu drwy e-bost at Laura Quinlan [peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk](mailto:peoplepondswater@freshwaterhabitats.org.uk)